

## Beirniadaeth Rhyddiaith Bl. 9. Rhif 379

### Cyfrinach

#### Beirniad - Haf Llewelyn

Diolch i bob un am anfon eu gwaith a diolch am y fraint o gael eu darllen. Mae safon iaith pob un yn uchel, gyda'r gystrawen yn sicr a digon o ymadroddion difyr.

Cadwodd y rhan fwyaf at destunau cyffredin, gan ysgrifennu am bynciau sy'n cyffwrdd bywydau pobl ifanc - bwlio, cyfrinachau teuluol, gangiau ysgol ac ati. Ond cefais flas arbennig ar ambell stori fwy gwreiddiol, a diolch amdanynt.

Mae'r goreuon yn llwyddo i -

- drefnu eu gwaith, sicrhau dilyniant pendant
- defnyddio arddull at ddiben
- bod yn gynnil heb or-ddweud

Mae ysgrifennu gwaith sydd yn cydio yn gamp, mae'n rhaid i'r darllenydd fod eisiau parhau i ddarllen, felly beth am -

- geisio meddwl am stori ychydig yn wahanol neu roi tro bach mewn digwyddiadau cyffredin
- peidio gor-ddweud na gor-ysgrifennu - byddwch yn gynnil efo ansoddeiriau ac idiomau

Mae dod i benderfyniad ar y tri sy'n dod i'r brig wedi bod yn anodd iawn. Hoffais syniad

**Taylor Swift** o fyw mewn rhith-fyd apocolyptaidd, hoffais ddiwyllledd ac ysgrifennu aeddfed **Llyn Droell**, hoffais yn fawr stori epig **Llawysgrifen Traed Brain**.

Ond rhaid dod i benderfyniad -

Rwy'n rhoi'r wobr gyntaf i **Treorllan** am ei stori hud a lledrith am for-forwyn sy'n ein rhybuddio am ein gweithredoedd, a chanlyniad hynny i'n daear. Mae'n stori swynol, wedi ei strwuthuro'n gelfydd.

Yn ail mae **Neigwl**, am fonolog effeithiol iawn am ferch a'i hunan-ddelwedd fregus. Mae'r ysgrifennu'n aeddfed ac effeithiol, a'r teimladau'n cael eu trafod heb ddim gor-ddweud.

Yn drydydd mae **Mwnici Mawr** am ei stori wreiddiol a digri am sut i sicrhau miliwn o Gymry Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'n stori glyfar, gelfydd a diolch am fy nifyrru.

1. Treorllan (F71384)
2. Neigwl (F63022)
3. Mwnici Mawr (F16333)